Morgrugysor

Cryfder / Cadernid

Yng nghanol y fforestydd trofannol mae anifeiliaid rhyfedd iawn yn byw. Yn eu plith mae anifail sy'n byw ar fwyta morgrug a dim ond morgrug. Mae ei ben a'i goesau blaen wedi'u llunio'n ofalus i durio i nythod y morgrug. Mae ganddo drwyn hir, pigfain a thafod hir. Gyda'i dafod hir mae'n llyfu i mewn i ganol nyth y morgrug. Llygaid a chlustiau bychain sydd ganddo. Mae ei goesau blaen yn hirach ac yn gryfach na'i goesau ôl. Gyda'i goesau blaen mae'n crafu'r pridd er mwyn cyrraedd at y morgrug.

Pan fydd yn chwilio am bryd o fwyd ar lawr y fforest bydd yn tyrchu gyda'i goesau blaen. Ar ôl iddo ddarganfod y nyth bydd wedyn yn defnyddio ei dafod hir i fynd i mewn i gorneli'r nyth. Mae'n waith caled a llafurus iawn. Buasai'n well iddo fwyta'r ffrwythau sy'n y fforest – mae digonedd ohonyn nhw ymhob man o'i gwmpas! A phan fydd y morgrugysor yn cael cegiad o forgrug bydd y rheiny ymhob man ar ei drwyn a'i wyneb. Ffordd y morgrug o amddiffyn eu hunain ydi brathu neu chwistrellu hylif gwenwynig ar ei gorff. Ond dydi'r ymosodiadau hyn ddim yn rhwystro'r morgrugysor rhag mynd ati i fwyta'r morgrug.

Yn y fforest hefyd mae ganddo elynion sy'n barod i ymosod arno. Anifeiliaid mwy nag ef fel y jagiwar. Ond wnaiff hwn, hyd yn oed, ddim ymosod ar y morgrugysor wyneb yn wyneb, ddim ond o'r tu ôl. Mae'n gwybod fod crafangau'r morgrugysor mor gryf a chadarn.

Un bore daeth rhai o frodorion y fforest heibio i chwilio am fwyd. Byddai unrhyw fath o anifail yn werth i'w gael. Fel roedden nhw'n cerdded o dan y coed lle'r oedd yr adar yn canu gwelsant y morgrugysor yn tyrchu gyda'i bawennau blaen. Y gamp oedd ceisio mynd tu ôl iddo. Cerddodd dau ohonyn nhw'n ddistaw o goeden i goeden. Aeth un o'r bechgyn ifanc i geisio'i ddal trwy fynd ymlaen i'w wynebu.

Roedd y morgrugysor wrthi'n tyrchu ac yn amlwg yn dal y morgrug fesul un. Yn sydyn roedd y bachgen ifanc o fewn tafliad carreg ato a rhuthrodd amdano. Cododd y morgrugysor ei ben a chododd ar ei draed ôl. Gafaelai'r bachgen yn dynn ynddo ond doedd o ddim wedi sylweddoli pa mor gryf oedd yr anifail. I amddiffyn ei hun rhoddodd y morgrugysor ei grafangau blaen yng nghorff y bachgen. Erbyn hyn roedd y dynion eraill wedi cyrraedd. Cael a chael oedd hi i dynnu'r bachgen yn rhydd o grafangau'r anifail. Creadur cryf, cadarn sy'n barod i wynebu peryglon bywyd ydi'r morgrugysor.

Gwna fi O Dduw, yn berson cryf a chadarn. Amen.

- Pa eiriau fyddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio'r morgrugysor?
- Beth ydych chi'n feddwl o bobl sy'n hela anifeiliaid?